



Cynllun Iaith Gymraeg

MELIN HOMES CYFYNGEDIG

Paratowyd yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

**Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar 26
Mawrth 2012.**

Rhagair

Sefydlwyd Melin Homes ym mis Ebrill 2007 ac mae'n darparu cartrefi a gwasanaethau o safon ledled Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd, Powys a Thorfaen. Mae Melin yn berchen ar dros 3,200 o adeiladau ac yn eu rheoli, mae ganddo ymagwedd ffres a deinamig, ac mae'n bwriadu gwneud gwahaniaeth cadarnhaol yn y cymunedau lle rydym yn gweithredu.

Mae Melin yn aelod o gonsortiw GENU S a sefydlwyd i alluogi Cymdeithasau Tai i gydweithio'n agosach ym maes caffael wrth ddarparu cartrefi newydd a chynnal a chadw eiddo.

Mae Melin yn gyfrifol am ddyrannu a chynnal tai fforddiadwy i'w rhentu. Mae hyn yn cynnwys cynlluniau tai gwarchod a chynlluniau gofal ychwanegol i bobl hyn yn ogystal â llety i deuluoedd ag anghenion cyffredinol a llety i unigolion.

Mae Melin yn hyrwyddo cymunedau cynaliadwy drwy bolisïau gosod tai a dyrannu, a gwaith datblygu cymunedol. At hynny, mae gan Melin brofiad cadarn o gynnwys preswylwyr drwy strwythurau ffurfiol ac anffurfiol.

Gweledigaeth Melin

- Bod yn landlord ardderchog
- Darparu llawer o gartrefi newydd
- Bod yn bartner dewisol
- Creu cyfleoedd ar gyfer preswylwyr a chymunedau
- Bod yn lle bywiog i weithio

Gwerthoedd Melin

Caiff ein gwaith ei ategu gan y canlynol:

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Hygyrchedd
- Arloesedd
- Partneriaeth
- Cymunedau a Phobl, nid briciau a sment yn unig
- Ymateb i newid a gweithio mewn ffordd hyblyg
- Bod yn gyflogwr gwych

Defnyddwyr Gwasanaethau

Mae Melin yn darparu cartrefi a gwasanaethau i'r rhai sydd angen tai fforddiadwy yn yr ardal lle rydym yn gweithredu.

Mae Melin yn darparu cyfleoedd cyflogaeth yn Nhorfaen a Sir Fynwy drwy gyflogaeth uniongyrchol gyda Melin a mentrau cyflogaeth fel y Farchnad Lafur Drosiannol, Cronfa Swyddi'r Dyfodol a Gwirfoddoli.

Datganiad o Fwriad

Mae Melin wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn nodi sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Rhaid ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg cyn diwygio'r cynllun hwn a rhaid iddo gytuno ar y diwygiadau hyn.

1 Cyflwyniad

- 1.1 Mae Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 yn rhoi dyletswydd ar y sector cyhoeddus i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru. O dan adran 5 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i bob corff cyhoeddus sy'n cael cyfarwydddeb statudol gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg baratoi Cynllun Iaith Gymraeg i'w gymeradwyo gan y Bwrdd. Mae hyn yn sicrhau y gall siaradwyr Cymraeg ddefnyddio gwasanaethau yn eu hiaith eu hunain yn hawdd.
- 1.2 Datblygwyd y Cynllun Iaith Gymraeg hwn yn sgîl ymrwymiad penodedig Melin i'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg lle bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.
- 1.3 Bydd cynllun Melin yn seiliedig ar yr amcanion canlynol:
 - galluogi pawb sy'n defnyddio gwasanaeth neu sydd mewn trafodaethau â Melin i wneud hynny drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg yn ôl dewis personol yr unigolyn;
 - sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel drwy gyfrwng y Gymraeg;
 - annog eraill i hyrwyddo a defnyddio'r Gymraeg;
 - hyrwyddo'r Gymraeg yn y gweithle a hwyluso'r defnydd ohoni.
- 1.4 Mae Melin yn cydnabod y gall aelodau o'r cyhoedd fynegi eu barn a'u hanghenion yn well yn eu hiaith ddewisol. Mae hefyd yn cydnabod bod galluogi'r cyhoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn fater o arfer da yn hytrach na goddefiad, ac y gallai gwadu'r hawl iddynt ddefnyddio'u hiaith ddewisol eu gosod mewn sefyllfa o anfantais. Felly bydd Melin yn cynnig yr hawl i'r cyhoedd ddewis pa iaith i'w defnyddio wrth ymdrin â'r sefydliad, yn unol â'r egwyddor uchod.
- 1.5 Mae Melin yn gweithredu yn ne-ddwyrain Cymru sydd â nifer fach o siaradwyr Cymraeg, ond mae tueddiadau'n dangos bod mwy a mwy o bobl ifanc yn deall yr iaith. Yn ôl Cyfrifiad 2001, mae 15% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg yn yr ardaloedd lle rydym yn gweithredu, gyda'r gyfran uchaf ym Mhowys lle mae ein canran o stoc yn isel.

- 1.6 Mae Melin yn ymrwymedig i weithredu yn unol ag egwyddorion Iaith Pawb: Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2003. Mae'r cynllun yn cynrychioli'r fframwaith cenedlaethol cyntaf erioed ar gyfer camau gweithredu a gynllunnir ar lefel lywodraethol i ddiogelu, cynnal a hyrwyddo'r iaith Gymraeg.
- 1.7 Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn croesawu ymholiadau am wasanaethau yn Gymraeg ac yn rhoi cynllun gweithredu ar waith i wella gallu Melin i ddarparu gwasanaethau o'r un ansawdd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

2 Cynllunio a Darparu Gwasanaethau

2.1 Polisiâu a Mentrau

Wrth lunio polisiâu a mentrau newydd neu ddiwygio rhai sydd eisoes yn bodoli, bydd Melin yn asesu eu heffaith ieithyddol ac yn sicrhau eu bod yn gyson â'r Cynllun Iaith hwn, ac yn sicrhau y gweithredir y mesurau yn y Cynllun pan weithredir polisiâu a mentrau newydd.

Bydd Melin yn ymgynghori ymlaen llaw â Bwrdd yr Iaith Gymraeg o ran unrhyw gynnydd a fyddai'n cael effaith uniongyrchol ar y Cynllun Iaith Gymraeg hwn. Ni chaiff y Cynllun hwn ei ddiwygio heb gytundeb ymlaen llaw Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff sy'n rhan o'r gwaith o lunio polisiâu a mentrau yn ymwybodol o ofynion y Cynllun a chyngor priodol.

2.2 Darparu Gwasanaethau

Mae Melin yn ymrwymedig i gyflawni cydraddoldeb a gwerthfawrogi amrywiaeth. Caiff yr egwyddorion hyn eu cynnal a'u hyrwyddo ym mhob maes o waith Melin, gan gynnwys cyflogaeth, recriwtio, rheoli a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn ffordd wrthwahaniaethol ar bob lefel ac wrth gyflawni holl swyddogaethau'r sefydliad.

Byddwn yn sicrhau bod cynifer o'n gwasanaethau â phosibl ar gael yn Gymraeg, a byddwn yn hysbysu'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

Bydd Melin yn cyflawni'r ymrwymadau a nodwyd yn y Cynllun drwy weithredu'r trefniadau canlynol:

- trefnu'r tîm gwasanaeth fel bod staff sy'n siarad Gymraeg yn gallu ymdrin â'r cyhoedd sy'n siarad Gymraeg;
- sicrhau bod gennym fynediad i gyfieithwyr proffesiynol;
- codi ymwybyddiaeth o'r Cynllun Iaith ymysg staff Melin;
- ystyried yr angen i gynyddu argaeledd sgiliau iaith Gymraeg drwy hyfforddiant a recriwtio.

2.3 Gwasanaethau a ddarperir ar gyfer y cyhoedd gan sefydliadau eraill

Bydd unrhyw gontractau neu drefniadau a wneir gyda thrydydd parti yn gyson ag adrannau perthnasol o'r Cynllun hwn.

Mae Melin yn gweithio mewn partneriaeth â chyrrff cyhoeddus, sefydliadau o'r sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill. Mae Melin yn gweithredu ar sawl lefel wrth weithio gydag eraill:

- pan mai Melin yw'r arweinydd strategol ac ariannol mewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y gwasanaethau cyhoeddus a ddarperir yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith;
- pan fydd Melin yn ymuno â phartneriaeth a arweinir gan gorff arall, bydd mewnbyn Melin i'r bartneriaeth yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd Melin yn annog y parti'on eraill i gydymffurfio;
- pan fydd Melin yn bartner mewn consortiwm, bydd yn annog y consortiwm i fabwysiadu polisi iaith. Pan fydd Melin yn gweithredu'n gyhoeddus ar ran y consortiwm, bydd yn gweithredu'n unol â'r Cynllun Iaith.

Bydd Melin yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol o ofynion y Cynllun Iaith Gymraeg wrth weithredu mewn partneriaeth.

2.4 Safonau Ansawdd

Bydd gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg a Saesneg o ansawdd cyfartal a chânt eu darparu o fewn yr un amserlen.

3 Ymdrin â'r Cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

Yn unol â'n polisiau a'n gweithdrefnau sy'n ymwneud â Gwasanaeth Cwsmeriaid, mae croeso i gwsmeriaid a'r cyhoedd gysylltu â Melin yn ysgrifenedig, ar lafar, neu'n electronig drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, a bydd yr amseroedd ymateb yr un peth ar gyfer y ddwy iaith. Caiff hyn gyhoeddusrwydd drwy gylchlythyrau, adroddiadau blynyddol ac unrhyw ddulliau priodol eraill.

3.1 Gohebiaeth Ysgrifenedig

Caiff ymateb Cymraeg wedi'i lofnodi ei anfon mewn ymateb i lythyrau Cymraeg o fewn yr un terfyn amser â llythyr Saesneg. Defnyddir gwasanaeth cyfieithu os oes angen. Caiff ymateb Cymraeg hefyd ei anfon mewn ymateb i e-byst Cymraeg o fewn yr un terfyn amser ag e-bost Saesneg.

Yn dilyn sgwrs dros y ffôn neu wyneb yn wyneb drwy gyfrwng y Gymraeg, neu gyfarfod lle y cadarnhawyd mai'r Gymraeg yw iaith ddewisol yr unigolyn, bydd yr holl ohebiaeth yn Gymraeg.

Byddwn yn cadw cofnod o'r bobl sy'n dymuno ymdrin â Melin yn Gymraeg.

3.2 Cyfathrebu dros y Ffôn

Er mwyn cyflawni'r nod o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal, byddwn yn cymryd y camau canlynol i alluogi siaradwyr Cymraeg i ymdrin â Melin yn Gymraeg dros y ffôn:

- darparu cyfeiriadur mewnol o siaradwyr Cymraeg y gellir trosglwyddo galwadau iddynt;
- darparu canllawiau i staff ar sut i ymdrin â galwadau ffôn gan siaradwyr Cymraeg a sicrhau eu bod yn gyfarwydd â'r trefniadau;
- ar hyn o bryd mae gan Melin dri aelod o staff dwyieithog. Os nad yw'r rhain ar gael, bydd yr aelod o staff yn esbonio'n gwrtais i'r unigolyn a ffoniodd na all gyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg a naill ai'n trefnu i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl, yn awgrymu bod yr unigolyn a ffoniodd yn cyflwyno ymholiad Cymraeg ysgrifenedig, neu'n parhau â'r sgwrs yn Saesneg.
- Mae enwau'r staff sy'n gallu siarad Cymraeg ar hyn o bryd fel a ganlyn:

Kate Buckley	Rheolwr Pobl a Dysgu
Elizabeth Howard	Rheolwr Cymorth Ariannol
David Pettitt	Swyddog Prosiect Prydlesu

3.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus

Pan gynhelir cyfarfodydd cyhoeddus gan Melin, gan gynnwys cynadledau a digwyddiadau tebyg eraill, byddwn yn gwahodd y sawl a fydd yn bresennol i roi gwybod i'r trefnwyr ymlaen llaw a ydynt am ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Yn ogystal ag ystyried p'un a hysbyswyd Melin o iaith ddewisol y sawl a fydd yn bresennol, bydd y sefydliad yn ystyried lleoliad y digwyddiad, pwy sy'n debygol o fod yn bresennol, a'r pwnc dan sylw.

Pan fydd siaradwyr Cymraeg ymysg y sawl a fydd yn bresennol, dylid cynnal cyfarfodydd yn ddwyieithog gan ddefnyddio cyfleusterau cyfieithu. O dan yr amgylchiadau hyn gellir darparu deunydd ysgrifenedig megis taflenni neu ddogfennau eraill yn ddwyieithog.

3.4 Cyswllt Wyneb yn Wyneb

Bydd Melin yn sicrhau y caiff iaith ddewisol darpar gwsmer ei defnyddio i gyfathrebu ag ef yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau y gellir rhoi'r ddarpariaeth ieithyddol fwyaf priodol ar waith. Byddwn yn parhau i ystyried y posibilrwydd fod unigolion am ddefnyddio ieithoedd gwahanol ar gyfer gwasanaethau ysgrifenedig a gwasanaethau llafar. Byddwn yn hyblyg ac yn addasu i'r gofynion hyn.

4 Delwedd Gyhoeddus

4.1 Hunaniaeth Gorfforaethol

Bydd enw Melin yn ymddangos ar bob darn o bapur pennawd, papur ffacs, arwyddion allanol a mewnol, cardiau busnes, ffurflenni, posterï a thafleuni.

Mae Melin yn ymrwymedig i ddatblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog a byddwn yn gweithio tuag at fabwysiadu delwedd gyhoeddus fwy dwyieithog yn ystod oes y Cynllun hwn.

Bydd pob cyfarchiad a'r holl arwyddion ar ddrysau swyddfeydd Melin yn ddwyieithog ac yn arddangos logo Melin.

4.2 Arwyddion

Pan fyddwn yn adnewyddu neu'n ailgodi unrhyw arwyddion, byddwn yn sicrhau bod y fersiynau newydd yn ddwyieithog a bod arwyddion a osodir am y tro cyntaf yn ddwyieithog.

Bydd maint, safon eglurdeb ac amlygrwydd y geiriau ar yr arwyddion yn parhau'r egwyddor o gydraddoldeb iaith.

Wrth ddatblygu ystâd newydd o dai neu lety arall, bydd Melin yn awgrymu enw sy'n cyd-fynd â diwylliant a hanes yr ardal.

4.3 Cyhoeddi ac Argraffu Deunyddiau

Byddwn ni'n cynhyrchu ein prif ddogfennau strategol a'r rhai sydd ar gyfer y cyhoedd yn gyffredinol yn ddwyieithog.

Os oes angen llunio unrhyw ddogfen yn y Gymraeg a'r Saesneg, gwneir pob ymdrech i ymgorffori'r ddwy fersiwn mewn un ddogfen. Os oes rhaid llunio dogfennau ar wahân, bydd y fersiynau'n gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd, a bydd y ddwy ar gael ar yr un pryd. Bydd pob fersiwn yn nodi'n glir fod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

Byddwn yn sicrhau bod staff a'r sawl sy'n gyfrifol am argraffu yn ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau ar gyfer cyhoeddi dogfennau.

Byddwn ni'n gofalu bod ein gwefan yn drylwyr ddwyieithog ac y bydd deunyddiau ar gael yn y ddwy iaith ar yr un adeg, erbyn diwedd oes y cynllun hwn.

4.4 Datganiadau i'r Wasg

Mae datganiadau i'r wasg yn rhan amlwg o wyneb cyhoeddus Melin ac felly byddwn yn eu cyhoeddi'n ddwyieithog lle bo hynny'n briodol o dan yr amgylchiadau.

Byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gymryd rhan mewn cyfweiliadau gyda'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg os yn briodol.

5 Staffio a Recriwtio

5.1 Staffio

Bydd Melin yn monitro sgiliau a lleoliadau ei staff sy'n siarad Cymraeg drwy archwiliad sgiliau iaith er mwyn sicrhau bod digon o siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyflogi i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

Wrth asesu ein hanghenion staffio, byddwn yn darparu ar gyfer cynnydd posibl yn y galw am wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gynlluniau gael eu gweithredu ac wrth i siaradwyr Cymraeg ymateb i'r cynnig o wasanaeth Cymraeg.

Mae Melin yn cefnogi ceisiadau rhesymol gan aelodau o staff sydd am ddysgu Cymraeg yn unol â'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y sefydliad, a bydd yn parhau i gefnogi ac annog hynny.

Bydd rheolwyr llinell yn sicrhau eu bod yn ystyried y cyfle i ddysgu Cymraeg fel rhan o Gynllun Perfformiad Personol unigolyn yn ystod ei gylch rheoli perfformiad.

Caiff ymwybyddiaeth ieithyddol ei chynnwys fel rhan o raglen sefydlu'r staff a darperir hyfforddiant parhaus fel sy'n briodol.

5.2 Recriwtio

Pan fydd yn ddymunol neu'n hanfodol y dylai ymgeisydd feddu ar sgiliau Cymraeg, caiff hyn ei nodi'n glir yn adran gymwysterau'r swydd ac mewn hysbysebion.

Os caiff ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg ei benodi i swydd lle yr ystyrir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, yna bydd y gallu i ddysgu'r iaith, o fewn cyfnod rhesymol o amser i'w gytuno, yn un o amodau'r penodiad. Caiff cynnydd tuag at y targed ei fonitro'n rheolaidd.

6 Gweithredu'r Cynllun

Mae'r ymrwymiad i'r Cynllun Iaith Gymraeg wedi'i gymeradwyo gan Grwp Arwain Melin ac mae'r sefydliad wedi'i awdurdodi.

Rhoddir gwybod i holl staff Melin am y cynllun a'u cyfrifoldebau drwy ganllawiau ysgrifenedig a thrwy eu rheolwyr llinell. Bydd yr ymrwymiad a'r mesurau a bennir yn ffurfio rhan o'r broses sefydlu ar gyfer pob aelod newydd o staff.

Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Ymgynghori ar Fusnes sy'n gyfrifol am gydlynu a datblygu'r cynllun.

7 Adolygu a Monitro'r Cynllun

Bydd Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Ymgynghori ar Fusnes yn darparu adroddiadau monitro blynyddol i Bwyllgor Adnoddau Dynol Melin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Caiff cwynion eu cofnodi'n briodol, ac ymatebir iddynt yn briodol, yn unol â pholisi cwynion Melin. Dylid anfon unrhyw gwynion yn ymwneud â gweithredu'r cynllun neu ansawdd y gwasanaeth at:

Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Ymgynghori ar Fusnes
Melin Homes
Ty'r Efail
Lower Mill Field
Torfaen
NP4 0XJ
E-bost: sharon.bebb@melinhomes.co.uk
Ffôn: 08453 101102

Bydd Melin yn adolygu cynnydd y cynllun a'r cynllun gweithredu ar ôl tair blynedd mewn cydweithrediad â Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Lle y cytunir ar ddiwygiadau cânt eu hadlewyrchu yn y fersiwn ddiwygiedig o Gynllun Iaith Gymraeg Melin.

8 Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

Bydd Melin yn rhoi cyhoeddusrwydd parhaus i'r cynllun, ein gwasanaethau a'n gweithgareddau Cymraeg a'r weithdrefn gwyno ymysg y cyhoedd, staff, partneriaid a'r sawl sy'n ymdrin â Melin.

Bydd ein dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r Cynllun a'i gynnwys yn dilyn ein trefniadau cyhoeddusrwydd corfforaethol arferol, a bydd yn cynnwys sicrhau y caiff y Cynllun ei gyhoeddi mewn lle amlwg ar ein gwefan.

Cynllun Gweithredu Cynllun Iaith Gymraeg 2012-2015

Cyfeiriad	Targed / Tasg	Y sawl sy'n gyfrifol	Dyddiad targed	Canlyniad
2.1	Asesu pob polisi a menter newydd i sicrhau cysondeb â'r Cynllun Iaith Gymraeg	Swyddog Rheoli Ansawdd	Parhaus	Mae pob polisi a menter yn gyson â'r cynllun
2.2	Caffael gwasanaethau cyfieithu i sicrhau nad oes oedi pan fo angen ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg	Rheolwr Cyfathrebu	Parhaus	Mae dogfennau'n cael eu cyfieithu'n broffesiynol ac yn brydlon
2.2	Cynnal asesiad blynyddol o geisiadau Cymraeg i asesu'r angen am hyfforddiant a recriwtio	Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Ymgynghori ar Fusnes Rheolwr Pobl a Dysgu	Ebrill 2012 a pharhaus	Meithrin sgiliau iaith Gymraeg yn ôl y galw
3.1	Cadw cofnodion i bennu ieithoedd dewisol gohebwy	Rheolwr Cyfathrebu Rheolwr Pobl a Dysgu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cwsmeriaid	Parhaus	Rydym yn cadw cofnodion o'r bobl sy'n dymuno ymdrin â Melin yn Gymraeg
3.2	Cyhoeddi enwau, lleoliadau ac argaeledd staff sydd â sgiliau iaith Gymraeg ar y fewnwyd	Rheolwr Pobl a Dysgu Rheolwr Cyfathrebu	Ebrill 2012 ac fe'i diwedderir yn ôl yr angen	Gall siaradwyr Cymraeg ymdrin â Melin yn Gymraeg
3.3	Pennu ymlaen llaw a oes unrhyw un sy'n dod i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau cyhoeddus am ddefnyddio'r Gymraeg	Rheolwr Cyfathrebu	Medi 2012	Gall siaradwyr Cymraeg ymdrin â Melin yn Gymraeg
4.1	Llunio posteri, lluniau a chyfarchiadau Cymraeg ar gyfer derbynfydd, a diweddarau arwyddion drysau	Rheolwr Cyfathrebu	Mai 2012	Mae Melin yn datblygu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog
4.2	Bydd pob arwydd newydd yn ddwyieithog ac yr un mor amlwg yn y ddwy iaith	Rheolwr Cyfathrebu Cyfarwyddwr Cynorthwyol Rheoli Asedau	Parhaus	Bydd arwyddion newydd yn ddwyieithog
4.3	Adroddiad blynyddol i'w gyhoeddi'n ddwyieithog	Rheolwr Cyfathrebu	Hydref 2012 ac yn flynyddol wedi hynny	Cynhyrchir dogfennau safonol allweddol yn ddwyieithog
4.3	Sicrhau bod pob ffurflen a dogfen yn nodi'n glir eu bod ar gael yn Gymraeg ar gais	Rheolwr Cyfathrebu	Ebrill 2012	Cynhyrchir pob dogfen a ffurflen yn ddwyieithog os oes angen
4.3	Byddwn ni'n gofalu bod	Rheolwr Cyfathrebu	Ebrill 2014	Mae'r wefan yn

	ein gwefan yn drylwyr ddwyieithog			ddwyieithog
5.1	Cynnwys hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o'r Cynllun yng nghyfnodau sefydlu a hyfforddiant cydraddoldeb staff	Rheolwr Pobl a Dysgu	Medi 2012	Mae pob aelod newydd o staff yn ymwybodol o gyfrifoldebau iaith Gymraeg Melin
5.1	Cynnal archwiliad blynyddol o sgiliau iaith	Rheolwr Pobl a Dysgu	Ebrill 2012	Mae digon o staff sy'n siarad Cymraeg wedi'u cyflogi i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
5.1	Meithrin sgiliau iaith yn fewnol drwy gynig hyfforddiant wedi'i deilwra i anghenion y busnes i'r sawl sydd am ddysgu Cymraeg	Rheolwr Pobl a Dysgu	Parhaus	Mae Melin yn cefnogi staff sydd am ddysgu Cymraeg yn unol â'u rôl
5.1	Rhoi cyhoeddusrwydd i gyflawniadau staff o ran dysgu Cymraeg a hyrwyddo cymorth a mentora ymysg dysgwyr	Rheolwr Pobl a Dysgu	Medi 2012	Mae Melin yn cefnogi staff sydd am ddysgu Cymraeg yn unol â'u rôl
7	Llunio adroddiad monitro blynyddol a'i gyflwyno i Bwyllgor Adnoddau Dynol Melin a Bwrdd yr Iaith Gymraeg	Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Ymgynghori ar Fusnes	Cyflwynir i'r Pwyllgor Adnoddau Dynol bob mis Rhagfyr	Caiff cynnydd ei fonitro'n gyson
7	Cwynion i'w cofnodi a'u datrys yn unol â pholisi cwynion Melin	Swyddog Rheoli Ansawdd	Cyflwynir adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio a Risg bob chwarter	Caiff cwynion eu cofnodi ac ymatebir iddynt yn briodol
8	Cyhoeddi'r Cynllun ar wefan Melin a sicrhau bod pob rhanddeiliad yn ymwybodol ohono	Rheolwr Cyfathrebu	Ebrill 2012	Rhoddir cyhoeddusrwydd effeithiol i'r Cynllun Iaith Gymraeg
8	Sicrhau bod pob aelod o staff yn ymwybodol o'r cynllun ac yn ymwybodol o gyfrifoldebau Melin	Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Ymgynghori ar Fusnes	Ebrill 2012	Sicrheir bod staff yn ymwybodol o'r Cynllun ac y gall siaradwyr Cymraeg ymdrin â Melin yn Gymraeg
8	Helpu i hyrwyddo'r cynllun drwy gynnal diwrnod ymwybyddiaeth ar Ddydd Gwyl Dewi	Rheolwr Pobl a Dysgu Rheolwr Cyfathrebu Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Gwasanaeth Ymgynghori ar Fusnes	Mawrth 2013	Mae staff yn ymgysylltu'n effeithiol â Chynllun Iaith Gymraeg Melin